***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Paragraff 19 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

## ATODLEN 1

## OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU: PENODI ETC

*Swyddog cyfrifyddu*

19 (1) Yr Ombwdsmon yw'r swyddog cyfrifyddu ar gyfer swyddfa'r Ombwdsmon.

(2) Os nad yw'r Ombwdsmon yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau fel swyddog cyfrifyddu, caiff y Pwyllgor Archwilio ddynodi aelod o staff yr Ombwdsmon i fod yn swyddog cyfrifyddu cyhyd ag y mae'r Ombwdsmon yn methu â chyflawni ei gyfrifoldebau.

(3) Os yw swydd yr Ombwdsmon yn wag ac os nad oes Ombwdsmon dros dro, caiff y Pwyllgor Archwilio ddynodi aelod o staff yr Ombwdsmon i fod yn swyddog cyfrifyddu cyhyd ag y bydd swydd yr Ombwdsmon yn wag a bod dim Ombwdsmon dros dro.

(4) Mae gan y swyddog cyfrifyddu, o ran cyfrifon a chyllid yr Ombwdsmon, y cyfrifoldebau a bennir o bryd i'w gilydd gan y Pwyllgor Archwilio.

(5) Yn y paragraff hwn mae cyfeiriadau at gyfrifoldebau yn cynnwys yn benodol—

(a) cyfrifoldebau o ran llofnodi cyfrifon,

(b) cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid yr Ombwdsmon, ac

(c) cyfrifoldebau am y modd darbodus, effeithlon ac effeithiol y defnyddir adnoddau'r Ombwdsmon.

(6) Mae'r cyfrifoldebau y caniateir eu pennu o dan y paragraff hwn yn cynnwys cyfrifoldebau i'r canlynol—

(a) y Cynulliad, Gweinidogion Cymru neu'r Pwyllgor Archwilio, neu

(b) Tŷ'r Cyffredin neu ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

(7) Os gofynnir iddo wneud hynny gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, caiff y Pwyllgor Archwilio—

(a) cymryd tystiolaeth gan y swyddog cyfrifyddu ar ran y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a

(b) cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a throsglwyddo i'r Pwyllgor hwnnw unrhyw dystiolaeth a gafwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 77(1)**

**I2** Atod. 1 para. 19 mewn grym ar 23.7.2019 gan O.S. 2019/1096, **rhl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Paragraff 19 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 2 para. 6
- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 12 para. 7(2)

Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(a) (Welsh language text)
- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(b) (English language text)